

Cyhoeddiadau

YR OFALAETH

Nos Fercher, Ebrill 29: Cyfarfod Chwarter yr Annibynwyr yng nghapel Pendref, Bangor am 7.00 o'r gloch.

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Lun, Ebrill 27: Bydd Swper y Gymdeithas Undebol yng Nghlwb Golff Caernarfon am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Mai 3: Gwasanaethir am 9.30 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch. Ni fydd oedfa am 5.00 o'r gloch.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Wener, Mai 1: CIC am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Mai 3: Gwasanaethir am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Ll Hughes, Caernarfon. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Mai 3: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

BETHLEHEM

Dydd Iau, Ebrill 30: Cynhelir 'Bwrlwm' am 2.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Mai 3: Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Emlyn Richards, Cemaes.

CARMEL

Dydd Sul, Mai 3: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal y Gweinidog.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Mai 1: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caecathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.



Y mis nesaf - Deiniolen

Ebrill 26

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr Robert Morris

Mai 3

9.30 a.m. - Y Gweinidog
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m.—Dim Oedfa

Mai 10

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr John Roberts

Y mis nesaf - Llanberis

Ebrill 26

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Mai 3

10.00 a.m. - Y Parchg Dafydd Ll Hughes
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Dafydd Ll Hughes

Mai 10

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 635: Dydd Sul, 26 Ebrill, 2015

Yn dân ar fy nghroen

Mae rhai pethau'n dân ar fy nghroen. Ac un ohonyn nhw yw'r holl sôn a fu trwy'r wythnos am y gemau rygbi yn Stadiwm y Mileniwm ddoe. Nid bod unrhyw beth o'i le ar hanner can mil o bobl yn dod at ei gilydd i fwynhau dwy gêm rygbi rhwng timau rhanbarthol y De, cofiwch. Yr hyn a'm corddai oedd yr enw a roddwyd i'r digwyddiad. Ac erbyn amser cinio ddoe, roeddwn wedi hen flino ar y cyfeiriadau di-ddiwedd at 'Ddydd y Farn', a gwaeth na hynny 'Dydd y Farn III'.

Wn i ddim pwy yn ei ddoethineb a roes yr enw i'r digwyddiad. Pam 'Dydd y Farn'? Yr argraff a gawn i oedd nad oedd neb yn siwr iawn o'r rheswm. Ai dydd barn i'r timau oedd o? Go brin, gan nad oedd canlyniadau'r gemau'n debygol o wneud gwahaniaeth o bwys i safleoedd y timau yn eu cynghrair. Ai dydd barn i'r chwaraewyr ydoedd o ran y cyfle arbennig i wneud argraff ar Warren Gatland yn y gobaith o ennill lle yn nhim Cymru ar gyfer Cwpan y Byd yn nes ymlaen eleni?

Beth bynnag am hynny, hon oedd y drydedd flwyddyn i'r Undeb Rygbi gynnal dwy gêm rhwng y timau hyn yr un diwrnod, ar ôl ei gilydd ac ar yr un cae. A dyna wrth gwrs sy'n esbonio'r syniad o'r 'trydydd Dydd y Farn' yr oedd pawb ohonom yn cael ein hannog i edrych ymlaen ato a'i ddathlu. Ac oedd, roedd yr anogaeth fynych i 'ddathlu Dydd y Farn' yn dân pellach ar fy nghroen.

Plis, plis, plis, Undeb Rygbi Cymru, rhowch enw newydd i'r diwrnod hwn erbyn y flwyddyn nesaf. Oherwydd y mae'r fath beth â 'Dydd y Farn', ac nid oes a wnelo hwnnw ddim oll â hwyl ar gae rygbi. Dydd y Farn yw'r diwrnod hwnnw a benodwyd gan Dduw ar gyfer barnu'r byd. Nid dydd i edrych ymlaen yn ysgafn ato mo hwnnw, ond dydd i'w ofni. Doedd neb yn gwneud hynny'n fwy amlwg na Iesu Grist ei hun pan ddywedai am y rhai a fyddai'n gwrthod ei neges, y cai 'Sodom lai i'w ddioddef yn Nydd y Farn na thi' (Mathew 11:24). Dydd ofnadwy fydd hwnnw: 'Gan yr un gair hefyd y mae nefoedd a daear yr oes hon wedi eu gosod mewn stôr ar gyfer y tân; y maent ar gadw hyd Ddydd barn a distryw yr annuwiol' (2 Pedr 3:7).

Dyma'r dydd y gwneir yn amlwg bob pechod a bai, ac y gelwir pawb i gyfrif gerbron y Barnwr Mawr. Ie, un dydd, pan fernir y byw a'r meirw. Fydd yna ddim ail a thrydydd Dydd y Farn, gan y bydd y cyfan yn cael ei benderfynu ar yr un dydd hwn. Ond er na allwn groesawu Dydd y Farn, fe fydd yna trwy ras Duw ddathlu o fath y dydd mawr hwnnw. Oherwydd fel y dywed Ioan, bydd gan bawb sy'n ymddiried yn Iesu Grist fel Gwardwr 'hyder yn Nydd y Farn' (1 Ioan 4:17). A sail yr hyder hwnnw yw bod Duw wedi ein caru, a'i fod trwy ei fab Iesu Grist yn ein cyfrif yn ddiuog ac yn deilwng o gael bod gydag ef am byth.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad heddiw.

Cynhelir Oedfa Deulu yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch.

Bydd yr Ysgol Sul yn Neiniolen am 10.15 o'r gloch. Gwasanaethir yn yr oedfa am 5.00 o'r gloch gan Mr Robert Morris, Penygroes. Croeso cynnes iddo unwaith eto.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch, ac oedfa am 2.00 o'r gloch yng ngofal y Gweinidog.

Cofion

Dymuniadau gorau i baw sydd heb fod yn dda ar hyn o bryd ac yn arbennig y rhai sy'n methu â bod yn yr oedfaon.

Swper y Gymdeithas

Cynhelir Swper Blynyddol Cymdeithas Undebol Deiniolen yng Nghlwb Golff Caernarfon nos yfory, nos Lun, Ebrill 27.

Hwn fydd cyfarfod olaf y tymor, a'r gŵr gwadd fydd Mr John Dilwyn Williams, Penygroes.

Penblwydd Hapus

Roedd Mrs Megan Hughes, Daron, Ffordd yr Orsaf, Llanrug yn dathlu ei phenblwydd yn 90 oed ganol yr wythnos ddiwethaf. Llongyfarchiadau mawr iddi, a Phenblwydd Hapus hwyr!

Cyfarfod Chwarter

Bydd Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon yng nghapel Pendref, Bangor am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Ebrill 29. Ceir anerchiad gan y Parchg Casi Jones, Clynnog.

Cyfarfod Gweddi Efe

Cynhelir Cyfarfod Gweddi Efe yn 'Cartref', Caethro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch fore Gwener, Mai 1. Mae hwn yn gyfle i ni ddod ynghyd i weddio dros waith Efe yn bennaf, ond hefyd dros waith yr Ofalaeth.

Cymorth Cristnogol

Dyddiad Wythnos Cymorth Cristnogol eleni yw Mai 10-16.

Os gall rhywrai helpu gyda'r casgliad yn Llanberis eleni a wnewch chi ddweud wrth y Gweinidog mor fuan â phosibl os gwelwch yn dda. Mae angen rhagor o bobl i helpu i gasglu o ddrws i ddrws er mwyn i ni allu ymweld â phob rhan o'r pentref. Ni lwyddwyd i wneud hynny'r llynedd oherwydd prinder casglyddion.

Cwrs Plant yn y Bala

Bydd Penwythnos Plant yr Ofalaeth yng Ngholeg y Bala eleni o nos Wener hyd ddydd Sul, Mai 15-17. Mae'r cwrs hwn ar gyfer plant 8 i 12 oed ac mae croeso cynnes i'ch plentyn ddod iddo.

Cost y penwythnos fydd £60. Bwriedir trefnu bws eleni eto i nôl a danfon y criw i'r Bala. Mae'r plant sydd wedi bod o'r blaen yn gwybod am yr hwyl a geir ar y cyrsiau hyn, a gwn fod rhai'n edrych ymlaen yn barod i fynd i'r Bala eto.

Mae'n gyfle arbennig i'r plant ddysgu am Iesu Grist trwy weithgareddau o bob math, yn cynnwys gemau a gwaith crefft a chanu a stori.

Os am ragor o fanylion cysylltwch â'r Gweinidog. Mae ffurflenni ar gael i archebu eich lle, ac mae angen gwneud hynny erbyn dydd olaf Ebrill fan bellaf.

CIC

Cynhelir CIC Yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Wener nesaf, Mai 1.

Dosbarth Beiblaidd

Cynhelir y Dosbarth Beiblaidd nesaf yn Yr Haciau, Penisarwaun nos Fercher, Mai 6.

Cymanfa

Bydd Cymanfa Annibynwyr Dosbarth Bangor a Bethesda yng nghapel Carmel, Llanllechid am 10.30 o'r gloch ddydd Sul, Mai 17.

Pwyllgor Cymanfa'r Annibynwyr

Ym Mhwyllgor Cymanfa Annibynwyr Cylch Cwm-y-glo a gynhaliwyd nos Lun diwethaf penderfynwyd cynnal cymanfa eleni ddydd Sul, Medi 20.

'Dechreuadau'

Mae Pwyllgor Bugeiliol Cyfarfod Chwarter yr Annibynwyr wedi trefnu gweithgareddau mewn gwahanol rannau o'r sir ar gyfer yr wythnosau nesaf.

Mae gwahoddiad i eglwysi'r Ofalaeth hon i gyfres o gyfarfodydd a gynhelir ym mis Mai dan arweiniad y Parchg Casi Jones, Clynnog, Swyddog Cynnal ac Adnoddau Undeb yr Annibynwyr yn y Gogledd.

Bydd 4 sesiwn i drafod 'Pwy ydyn ni fel eglwysi' a 'Lle rydyn ni'n mynd heddiw'. Gwahoddir yr eglwysi i anfon 2 neu 3 aelod i'r cyfarfodydd hyn. Bydd pob sesiwn yn awr o hyd ac yn cynnwys trafod, myfyrio ar ddarnau o'r Beibl, a meddwl am bethau ymarferol y gellir gweithredu arnynt.

Bwriedir i'r aelodau hyn wedyn adrodd am y cyfarfodydd wrth aelodau'r eglwys gan rannu'r syniadau a'r awgrymiadau gyda hwy dan arweiniad y Gweinidog.

Cynhelir y sesiynau hyn ar brynhawn Mercher, rhwng 2.00 a 3.00 o'r goch., ar y dyddiadau a ganlyn:
Mai 6, 13, 20; a Mai 27 neu Mehefin 3

Bydd y cyfarfod cyntaf ym Methlehem Talybont am 2.00 o'r gloch, ddydd Mercher, Mai 6.

Fel dilyniant, bwriedir i Casi ymweld â'r eglwysi unigol ar gyfer dau sesiwn arall, sef Sesiwn 5: Edrych allan i'r gymuned a Sesiwn 6: Creu cynllun i'r eglwys ar gyfer y blynyddoedd nesaf.

Taith Clwb Gwau

Mae Clwb Gwau Carmel Llanllechid yn Trefnu trip i Abakhan, Llannerch y Môr ddydd Llun, Mai 11. Os ydych am ddod, rhowch eich enw os gwelwch yn da i Eira Hughes neu Helen Williams.